

YSGOL GYMRAEG



Prosbectws Ysgol
School Prospectus
2026-2027

Pennaeth / *Head teacher*:
Elin Wakeham

Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*:
Anna Evans

Gair o Groeso

Dymuna staff a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr estyn croeso cynnes iawn i chi a'ch plentyn. Mae'r blynyddoedd cynnar yn hollbwysig yn natblygiad pob plentyn, a hoffwn eich sicrhau y bydd eich plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn awyrgylch diogel, hapus, gofalgarn a chynhwysol.

Gwerthfawrogwn gyfraniad rhieni a gofawyr fel addysgwyr cyntaf eu plant, ynghyd â phwysigrwydd meithrin partneriaeth gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn diwallu anghenion unigol a datblygiadol pob plentyn sydd yn ein gofal.

Mae Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr wedi bod yn darparu addysg Gymraeg o safon i deuluoedd dinas Abertawe ers bron i 50 mlynedd. Ers ei sefydlu ym mis Medi 1976, mae'r ysgol wedi tyfu'n sylweddol ac erbyn hyn mae dros 300 o ddisgyblion, gan gynnwys plant y dosbarth meithrin, ar y gofrestr. Mae 2026-27 yn flwyddyn arbennig iawn i'n cymuned ysgol wrth inni nodi hanner canrif ers sefydlu'r ysgol. Mae'r 50fed pen-blwydd yn gyfle i ddathlu ein hanes cyfoethog, ein cyflawniadau niferus a'r cyfraniad amhrisiadwy a wnaed gan staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr dros y degawdau. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal eang, o Gilâ yn y gorllewin i Lan Dŵr yn y dwyrain.

Ar hyn o bryd, mae 12 o athrawon, 12 cynorthwydd addysgu a staff ategol yn gweithio yn yr ysgol. Mae gennym dîm ymroddedig, profiadol a brwdfrydig sy'n gweithio'n ddiflino i godi safonau a sicrhau'r addysg a'r gofal gorau posibl i bob disgybl. Rydym yn ymfalchïo yn safonau cyrhaeddiad uchel ein disgyblion, ac mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigiwn yr un mor bwysig. Yn gyson, mae ein disgyblion yn ennill clod ac yn profi llwyddiant mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Eisteddfodau'r Urdd, cystadlaethau chwaraeon, celf ac arloesi digidol. Ymhlith ein llwyddiannau diweddar mae ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith a Gwobr Efydd STEM.

Rydym yn falch iawn o ganfyddiadau adroddiad diweddar Estyn, lle tynnwyd sylw at ethos cyfeillgar yr ysgol, ymddygiad rhagorol y disgyblion, trefniadau diogelu cadarn, a'r Gymraeg sydd wrth galon pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Disgrifiwyd ein cwricwlwm gan Estyn fel un arloesol a meistrolgar, ac rydym yn parhau i arwain y ffordd a rhannu arferion rhagorol mewn perthynas â gweithredu Cwricwlwm i Gymru.

Hyderwn y bydd y prospectws hwn yn rhoi blas i chi o weledigaeth, gwerthoedd ac ethos Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu perthynas gadarnhaol, hapus a llwyddiannus gyda chi a'ch plentyn dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Anna Evans
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Elin Wakeham
Pennaeth

A Word of Welcome

The staff and governors of Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr would like to extend a very warm welcome to you and your child. The early years are of vital importance in every child's development, and I would like to assure you that your child will receive the best possible start in a safe, happy, caring and inclusive environment.

We value the contribution of parents and carers as their children's first educators, and recognise the importance of fostering a positive partnership between home and school in order to meet the individual developmental needs of every child in our care.

Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr has been providing high-quality Welsh-medium education to families in the City of Swansea for almost 50 years. Since its establishment in September 1976, the school has grown significantly and now has over 300 pupils on roll, including nursery-aged children. The 2026-27 academic year is a particularly special one for our school community as we celebrate the school's 50th anniversary. This historic milestone provides an opportunity to celebrate our rich history, our many achievements, and the invaluable contributions made by staff, pupils, parents and governors over the decades. The school serves a wide area, from Killay in the west to Waterfront in the east.

At present, the school has 12 teachers, 12 teaching assistants and support staff. We are fortunate to have a dedicated, experienced and enthusiastic team who work tirelessly to raise standards and ensure the very best education and care for every pupil. We take great pride in our pupils' high levels of achievement, and we place equal importance on the wide range of extra-curricular opportunities that we offer. Our pupils consistently gain recognition and enjoy success across a variety of fields, including the Urdd Eisteddfod, sporting competitions, the arts and digital innovation. Among our recent achievements are receiving the Welsh Language Charter Gold Award and the STEM Bronze Award.

We are extremely proud of the findings of our recent Estyn inspection report, which highlighted the school's friendly ethos, pupils' exemplary behaviour, robust safeguarding arrangements and the Welsh language at the heart of every aspect of school life. Estyn described our curriculum as innovative and highly effective, and we continue to lead the way and share best practice in the implementation of the Curriculum for Wales.

We hope that this prospectus will give you a flavour of the vision, values and ethos of Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, and we look forward to developing a positive, happy and successful partnership with you and your child in the years ahead.

*Anna Evans
Chair of Governors*

*Elin Wakeham
Head Teacher*

Safle'r Ysgol

Saif yr ysgol i'r gorllewin o ganol dinas Abertawe, tua hanner milltir o'r traeth a chyda golygfeydd godidog o Fae Abertawe a'r Mwmbwls. Fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol fel ysbyty i ofalu am filwyr yn dychwelyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf ac fel Ysgol Fabanod Brynmill cyn ei hagor, yn swyddogol fel Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr ym 1976. Oherwydd lleoliad yr ysgol does dim llawer o dir na chaeau chwarae, ond gyda chefnogaeth cymuned eang yr ysgol, rydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau sydd gyda ni.

The Location

The school is located to the west of Swansea city centre, around half a mile from the beach with magnificent views over Swansea Bay and Mumbles. Originally built as a hospital for soldiers returning from the First World War, it was used as Brynmill Infants School for a number of years before opening as Ysgol Gymraeg Bryn y Môr in 1976. The school's location doesn't allow for much land or playing fields, however, with the support of the school's wider community, we make the most of what is available to us.

Gwelediageth yr Ysgol

Anelwn at dyfu ethos a diwylliant a fydd yn creu cymuned ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n blaenoriaethu lles, cydraddoldeb a pharch. Hyrwyddwn awyrgylch sy'n meithrin ac yn hybu ein diwylliant, etifeddiaeth a chariad at ein gwlad a'n hiaith mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a byd eang. Darparwn addysg bwrpasol o safon uchel sy'n gytbwys ac eang, sy'n ysbrydoli ac yn ennyn mwynhad, chwilfrydedd a balchder a bydd pedwar diben cwricwlwm i Gymru yn rhan annatod ohoni. Cynigwn brofiadau a fydd yn hyblyg a deinamig sy'n gallu ymateb i ofynion newidiadau yn ein cymuned a'n byd o'n cwrmpas. Bydd hyn yn caniatáu i bawb gyrraedd eu llawn botensial ac i fod yn ddysgwyr cymwys am oes.

Our vision

We aim to build an ethos and culture that strives towards being a happy, caring and inclusive community. We aim to ensure the school community prioritises wellbeing, is equitable and respectful. We will promote and nurture our Welsh language and culture, our heritage and love of our country in local, national and international contexts. We will aim to deliver high quality balanced, purposeful teaching and learning that inspires enjoyment and engagement, curiosity, pride in work and embeds the four purposes of the curriculum for Wales. We will offer flexible and dynamic experiences that can respond to the changing demands of our community and the world around us. This will allow all to reach their potential and to become learners that are qualified for life.

Ein Gwerthoedd – Our Values



Manylion Cyswllt / Contact Details

Cyfeiriad / Address: Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr
Heol St Alban
Brynmill
Abertawe
SA2 0BP



Rhif Ffôn / Telephone: 01792 466354
e-bost / email: YGG.Brynymor@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggbrynymor.co.uk
INSTA @YGGBrynymor

Math o Ysgol / Type of School: Ysgol Gynradd Gyfrwng Cymraeg / Designated Welsh Medium Primary School

Ystod oed disgyblion / Age Range: 3-11

Nifer ar y gofrestr / No. of pupils on roll: 289



Oriau Ysgol / *School Hours*

Meithrin / *Nursery*

*Meithrin Bore / *Morning Nursery* 8.50 am - 11.20 am
Meithrin Prynhawn / *Afternoon Nursery* 1.00 pm - 3.20 pm

Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 / *Reception, Year 1 and 2*

*Sesiwn y bore / *Morning Session*: 8.50 am – 11.50 pm
Sesiwn y Prynhawn / *Afternoon Session*: 12.45 pm - 3.05 pm

Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 / *Years 3, 4, 5 and 6*

*Sesiwn y Bore / *Morning Session*: 8.50 am – 12.15 pm.

Sesiwn Prynhawn / *Afternoon Session*: 1.00 pm - 3.20 pm.

*Clwb Brecwast / *Breakfast Club* 7.50 am - 8.50 pm

Staffio a Threfniadaeth Dosbarthiadau/
Staffing and Classroom Organisation

Pennaeth
Head teacher

Elin Wakeham
 BA (Hons/Anrh); MBA; CPCP(NPQH)

Dirprwy Bennaeth
Deputy Head teacher

Linda Williams

Adran / Department	Dosbarthiadau / Classes	Athrawon / Teachers
Adran yr Afon	Glas y Dorlan - BI/Yr 5&6	Rhian-Wyn Jones
	Y Crychudd- BI/Yr 5&6	Lowri Caswell
	Y Brithyll – BI/Yr 4	Chris Lewis
Adran y Môr	Y Dyfgri - BI/Yr 3	Linda Williams
	Bilidowcar - BI/Yr 2 a 3	Hannah Attwood
	Yr Wylan – BI Yr 1 a 2	Catrin Williams/Catherine Jones
	Y Gragen BI/Yr 1	Amber Williams
	Yr Wylan – BI/Yr Deryn ac 1	Kelly Jones
Adran y Bae	Y Tonnau Derbyn- Reception	Sophie Griffiths
	Y Traeth – Meithrin/Nursery	Amy Smart

Athrawes Cefnogi/
Support Teacher

Cath Jones
 Rebecca Harris Jenkins

Cynorthwy-wyr Addysgu
Learning Assistants

Maggie Bassett
 Rhiannon Bevan
 Elisha Francis
 Sioned Warwick
 Tia Buse
 Keira Evans
 Eve Davies
 Ellie Hughes
 Jennifer Morgan
 Caryl Morris
 Cerri Elimelech
 Lauren Nixon

Swyddogion Gweinyddol / *Admin Officers*
 Gayle Hughes a Cerri Elimelech

Gofalwr / *Caretaker*
 Mike Collins and Mike Stones

Rebecca Harris-Jenkins

Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol /
Additional Learning Needs Coordinator

Uwch Dîm Arwain – Senior Leadership Team

Kelly Jones (TLR3)

Rhian Jones

Linda Williams

Elin Wakeham

Rebecca Harris Jenkins

Aelodaeth y Corff Llywodraethu / Membership of Governing Body

Anna Evans Cadeirydd / <i>Chair</i>	Cynrychiolydd o'r ALI <i>LA Representative</i>
Saran Thomas Is-gadeirydd / <i>Vice Chair</i>	Rhiant Lywodraethwr <i>LA Representative</i>
	Cynrychiolydd o'r ALI <i>LA Representative</i>
Sandra Joy	Cynrychiolydd o'r ALI <i>LA Representative</i>
	Llywodraethwr cymunedol <i>Community Governor</i>
Martyn Hancock	Llywodraethwr cymunedol <i>Community Governor</i>
Miriam Powles	Llywodraethwr cymunedol <i>Community Governor</i>
Rhodri Evans	Llywodraethwr cymunedol <i>Community Governor</i>
Catrin Williams	Cynrychiolydd staff Addysgu <i>Teaching staff representative</i>
Linda Williams	Cynrychiolydd staff Addysgu <i>Teaching staff representative</i>
Ffion Powell	Cynrychiolydd staff <i>Staff representative</i>
Lucy Crehan	Rhiant Lywodraethwr <i>Parent Governor</i>
Sarah Andrews	Rhiant Lywodraethwr <i>Parent Governor</i>
Steven Herbert	Rhiant Lywodraethwr <i>Parent Governor</i>
Laura Hamilton	Rhiant Lywodraethwr <i>Parent Governor</i>
Dr David Bird	Rhiant Lywodraethwr <i>Parent Governor</i>
Elin Wakeham	Pennaeth <i>Head Teacher</i>

Clerc i'r Llywodraethwyr
Clerk to Governing Body

Gayle Hughes

Dyddiadau'r Tymor 2026-27 Term Dates

HMS / Inset: Yr ysgol sy'n penderfynu ar ddiwnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (6 diwrnod mewn blwyddyn) *The school determines on which days INSET days are held (6 days per academic year)*

01.09.26

13.11.26

29.01.27

30.04.27

18.06.27

20.07.27

Trefniadau Derbyn Plant

Mae gan bob ysgol rif derbyn. Rhif derbyn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yw 37. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn. Gan mai'r Awdurdod Lleol Abertawe yw'r Awdurdod Derbyn, yr Awdurdod Lleol sydd felly yn ystyried ceisiadau. Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer (h.y. mwy na 37) ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

- nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol)
- dalgylch daearyddol yr ysgol (h.y. dalgylch diffiniedig). Gofynnir i rieni gysylltu ag Adran Mynediad Ysgolion yr Awdurdod er mwyn cadarnhau eu dalgylch nhw;
- a oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol;
- wedi'r meini prawf uchod, lle mae rhif ceisiadau dal yn uwch na'r rhif derbyn, agosrwydd y cartref i'r ysgol bydd y meini prawf terfynol.

I wneud cais am le yn y **Meithrin**, gwnewch gais yn i **hysbysu diddordeb** i'r ysgol trwy'r ddolen hon.

<https://www.yggbrynymor.co.uk/mynegi-diddordeb-cael-lle-yn-y-meithrin-expression/>

(Gellir dod o hyd iddo ar wefan yr ysgol)

Er mwyn gwneud cais am le i'r **Derbyn**, rhaid cyflwyno ceisiadau i Ddinas a Sir Abertawe. Ni chaniateir trefnu rhestr aros. Gellir gwneud cais am le trwy gasglu ffurflen mynediad o swyddfa'r ysgol, neu drwy'r ddolen gyswllt ar wefan yr ysgol.

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan Dinas a Sir Abertawe -

Pupil Admission Procedure

Each school has an admission number. The admission number for Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr is 37. There is no automatic transfer from the nursery class to the reception class. The Local Authority is the Receiving Authority, it is the Authority that considers the applications. If more people decide to send their children to the school than there is space for them i.e. more than 37, then each application will be considered pursuant to the following criteria, listed below in order of priority.

- The number of children that the school can accept i.e. the admission number for each school year group.
- The geographical catchment of the school (i.e. defined catchment area). We ask that parents contact the Authority's School Admissions Department to confirm their catchment area.
- If the prospective student has a brother or sister at the school;
- Where the above criteria is met and the applications remain in excess of the places available, distance from the home to the school will be the final deciding criterion.

To apply for a place in **Nursery**, please apply **to express interest** to the school through this link.

<https://www.yggbrynymor.co.uk/mynegi-diddordeb-cael-lle-yn-y-meithrin-expression/>

(Can be found on the school website)

To make an application for a school place in **Reception**, applications must be made to The City and County of Swansea. Waiting lists are not allowed. You can make an application by collecting an application form from the school office or through the link on the school website.

More information can be found on the City and County of Swansea website -

<http://www.swansea.gov.uk/applyforaschoolplace>

Derbyn a Throsglwyddo Disgyblion

Derbynnir plant i'r **Dosbarth Meithrin** yn rhan-amser yn ystod y flwyddyn ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Estynnir gwahoddiad i rieni i gwrdd â staff y dosbarth yn ystod y tymor cyn bod eu plant yn cychwyn.

Dosbarth Derbyn: Cyn i'r plant ddod yn llawn amser (y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed) ystyrir eu cais gan Adran Mynediad Ysgolion yr Awdurdod.

Trosglwyddir disgyblion i Ysgol Gyfun Gŵyr ar ddiwedd Blwyddyn 6. Mae cysylltiadau agos a sefydlog rhwng y ddwy ysgol a chaiff disgyblion gyfle i ymweld â'r ysgol yn ystod diwrnodau pontio yn ogystal â chyfle i fwynhau wythnos bontio yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.

Pupil Admission and Transition

*Children are accepted into the **nursery class** on a part-time basis during the year after their 3rd birthday. Invitations are extended to parents to meet with the classroom staff in the term prior to their child starting.*

Reception class: *Prior to the children starting full-time (the September after their 4th birthday) their application will be considered by the Authority's School Admissions Department.*

At the end of Year 6 pupils will transfer to Ysgol Gyfun Gŵyr. A close relationship exists between the two schools and pupils have the opportunity to visit the school during transition days as well as the opportunity to enjoy a transition week at the Urdd Camp in Llangrannog.

Trefniadau i rieni sy'n ystyried anfon eu plant i'r ysgol

Os ydych yn dymuno ymweld â'r ysgol mae croeso i chi a'ch plentyn gysylltu â'r ysgol er mwyn trefnu apwyntiad i gwrdd â'r Pennaeth, staff ac i ymweld â'r safle. Yr ydym hefyd yn trefnu prynhawn agored blynyddol a bore coffi tymhorol i ddarpar rieni a disgyblion y Dosbarth Meithrin.

Arrangements for parents wishing to visit the school

If you wish to visit the school please contact the school to make an appointment to meet the Head teacher, staff and to visit the site. We also organise an annual open afternoon for prospective parents and pupils in the Nursery Class and termly coffee mornings.

Gwisg Ysgol

Teimlwn fod gwisg ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a balchder. I'r perwyl hwn anogir eich plentyn i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol.

Dylid labelu pob dilledyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y wisg a rhestr o ddarparwyr lleol drwy gysylltu â'r ysgol.

Gwisg swyddogol yr ysgol

Siwmpwr goch (Noder nad yw hwdîs yn rhan o wisg swyddogol yr ysgol)

Crys polo gwyn

Trowsus, sgert, siorts neu frat du

Ffrog 'gingham' coch a gwyn (dewisol yn yr haf)

Esgidiau du

Gwisg Addysg Gorfforol

Esgidiau rhedeg (caeëdig)

Trowsus neu siorts ysgafn

Crys-t neu siwmpwr ysgafn

Gwisg nofio a thywel

Benthycir dillad priodol i'r disgyblion sy'n cynrychioli tîmau'r ysgol. Ni chaniateir i unrhyw ddisgybl wisgo gemwaith, gan gynnwys clustdlysau yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.

School Uniform

We feel that school uniform promotes a sense of belonging and pride. To this end your child is encouraged to wear the school's official uniform.

Please remember to label each item of clothing. You can find more information about the school uniform and a list of local distributors by contacting the school.

Official School Uniform

Red jumper (Please note that hoodies are not an official part of the uniform)

White polo shirt

Black trousers, skirt, shorts or pinafore

Red and white gingham dress (optional for summer)

Black shoes

Physical Education Attire

Running shoes (closed toe)

Light shorts or trousers

Light T-shirt or jumper

Swimwear and towel

Appropriate clothing will be provided to students representing the school teams. Children are not permitted to wear any jewellery, this includes ear-rings, during physical education lessons.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw cyfrwng dysgu ac addysgu yn yr ysgol a nod yr ysgol yw sicrhau bod disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg erbyn iddynt adael ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6. Ar derfyn eu cyfnod yn yr ysgol bydd disgyblion yn medru parhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr addysgir cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ym mlwyddyn 3 hyd at flwyddyn 6 ond Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu â'r gweithgareddau allgyrsiol. Ein nod erbyn diwedd cyfnod eich plentyn yn yr ysgol yw sicrhau bod eich plentyn yn gwbl ddwyieithog ac yn gwerthfawrogi manteision caffael mwy nag un iaith a diwylliant. Dengys ymchwil bod nifer o fanteision yn gysylltiedig â bod yn ddwyieithog:

- Mae o leiaf 60% o'r byd yn siarad mwy nag un iaith yn eu bywydau beunyddiol. Peth naturiol iawn, felly, yw dwyieithrwydd ac nid yw'n peri anawsterau i blant. Gydag addysg Gymraeg, gall eich plentyn chi ymuno â'r mwyafrif hwn.
- Dengys ymchwil fod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn helpu plant i fod yn fwy deheuig, yn fwy brwdfrydig ac yn fwy effro'n feddyliol. Dangosir hefyd fod plant mewn ysgolion Cymraeg yn datblygu sgiliau ysgrifennu mwy effeithiol na'r plant mewn ysgolion sy'n defnyddio Saesneg yn unig.
- Bydd hi'n haws o lawer iddyn nhw, hefyd, pan fyddan nhw'n astudio ieithoedd tramor oherwydd bod plentyn dwyieithog yn deall strwythur ieithoedd ychwanegol yn gynt.
- Mae'r llywodraeth yn annog cymdeithas ddwyieithog, ac mae mwy a mwy o swyddi yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg.
- Mae'r Gymraeg yn agor y drws i holl gyfoeth diwylliant a hanes Cymru ac yn cryfhau teimlad y plentyn o berthyn i gymuned.

The Welsh Language

Welsh is the medium of teaching and learning in the school. The school aims to ensure that all pupils are fluent in Welsh by the time they leave school in Year 6. At the end of their time at the school pupils will be able to continue their Welsh medium education at Ysgol Gyfun Gwyr in Swansea.

In Welsh medium schools such as Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr the Foundation Phase curriculum (3-7 yrs) is taught entirely through the medium of Welsh. English is introduced as part of the National Curriculum in years 3 to 6 but Welsh is the main medium of instruction and extracurricular activities. Our aim by the end of your child's time at the school is to ensure that he/she is totally bilingual and appreciates the advantages of being able to access more than one language and culture. Research shows that there are a number of advantages associated with being bilingual:

- *At least 60% of the world speaks more than one language in their daily lives. Bilingualism is, therefore, perfectly natural and does not cause difficulties for children. With Welsh education, your child can join this majority.*
- *Research shows that bilingualism and multilingualism help increase children's proficiency, enthusiasm and mental alertness. It also indicates that children in Welsh-medium schools develop writing skills more effectively than children in schools where only English is used.*

- *It will also be much easier for them when they study foreign languages because a bilingual child will understand the structure of additional languages more quickly than a monolingual child.*
- *The government encourages bilingualism, and increasing numbers of jobs require the ability to speak Welsh.*
- *The Welsh language opens the door to all the riches of Wales' culture and history and it strengthens the child's feeling of belonging to a community.*

Trefniadau Teithio i'r Ysgol

Does gan yr ysgol ddim maes parcio, ac o ganlyniad i leoliad trefol yr ysgol, mae parcio ar y ffyrdd o gwmpas y safle yn anodd iawn. Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded, beicio neu rannu ceir lle bo modd wrth ddod â'u plant i'r ysgol ac i ystyried parcio ar strydoedd i ffwrdd o'r ysgol. Gofynnir i rieni yrru'n ofalus ac yn bwyllog ger safle'r ysgol er diogelwch pawb.

Neilltuwyd parcio y tu allan i'r brif fynedfa i fysiau, tacsis a pharcio i'r anabl. Ni chaniateir i'r rhieni barcio o flaen yr ysgol ar unrhyw adeg.

Darperir trafndiaeth gan yr awdurdod i'r disgyblion hynny sydd yn byw o fewn ein dalgylch ond dros ddwy filltir o'r ysgol. Rhaid i rieni ysgrifennu llythyr at y pennaeth pan fydd angen newid trefniadau teithio eu plant mewn unrhyw ffordd.

Arrangements for Travelling to School

The school does not have a car park and due to its city centre location, parking on the road in the vicinity of the school is very difficult. The school encourages parents to walk, cycle or car-share when bringing their children to school and to consider parking on streets away from the school. For everybody's safety, we ask that parents drive with due care and attention in the vicinity of the school.

At the main entrance of the school, parking is reserved for buses, taxis and the disabled. Parents are not permitted to park in front of the school at any time.

The Local Authority provides school transport to those pupils who live within the catchment area but more than two miles away from the school. Parents must write to the head teacher when there is a need to change the travelling arrangements for their children in any way.

Diogelwch disgyblion ar y safle

Mae sicrhau diogelwch pob disgybl yn holl bwysig i ni yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr a gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ddiogelu disgyblion ac oedolion eraill tra eu bônt ar safle'r ysgol ac yn ystod ymweliadau oddi ar y safle. Mae pob un o'r athrawon yn gyfrifol am les a gofal bugeiliol bob disgybl a'r Pennaeth â chyfrifoldeb dros y cyfan. Mae trefniadau diogelu plant yn hysbys i bob aelod o staff yr ysgol ac maent yn ymwybodol o gyfrifoldebau staff enwebedig ar gyfer

delio â materion amddiffyn a diogelu plant. Darperir hyfforddiant priodol a rheolaidd i'r perwyl hwn. Yr ydym yn dilyn canllawiau lechyd a Diogelwch yr Awdurdod Lleol.

Pupils on-site safety

Ensuring the safety of all pupils is of paramount importance to us at Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr and we do everything we can to safeguard pupils and adults while they are on the school site and during off-site visits. Every teacher is responsible for the welfare and pastoral care of each pupil, while the Head teacher has overall responsibility. Child protection and safeguarding procedures are known to every member of school staff and they are aware of the responsibilities of named staff for dealing with child protection and safeguarding issues. Appropriate and regular training is provided for this purpose. We follow the Local Authority's Health and Safety guidelines.

Amddiffyn Plant

Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y disgyblion. Os oes pryderon ynglŷn â cham-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Rhrefniadau Diogelu Cymru 2019, i hysbysu'r person dynodedig sydd â gofal dros Amddiffyn Plant.

Y Pennaeth, Mrs Elin Wakeham, yw'r swyddog dynodedig dros Amddiffyn Plant a Diogelu. Yn absenoldeb y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth, Miss Linda Williams, sy'n gyfrifol. Y Llywodraethwr â chyfrifoldeb dros Amddiffyn Plant yw Dr Tamasine Preece.

Gall y person dynodedig ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol Dinas a Sir Abertawe. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Yn dibynnu ar natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r disgybl. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau os oes pryder ynglŷn â diogelwch disgybl.

Child Protection

Every member of staff is responsible for child protection and safeguarding. If there are concerns relating to physical, emotional or sexual abuse, then the staff have a duty, in line with the Wales Safeguarding Procedures 2019, to notify the School's Child Protection Co-ordinator.

The Head teacher, Mrs Elin Wakeham, is the school's designated Child Protection Officer. In the absence of the Head teacher, the designated person with responsibility is the Deputy Head teacher, Miss Linda Williams. The Governor with responsibility for Child Protection is Dr Tamasine Preece.

The designated officer can consult with professional colleagues as well as appropriate agencies such as Health and Social Services. Following these discussions, the school co-ordinator may have to officially refer the child to the Social Services Department, in line with the procedures and protocols of the City and County of Swansea. The Social Services Department will decide whether or not intervention is required.

Depending on the nature of the concerns raised it will not always be appropriate to discuss matters with parents prior to referring the pupil. Social Services and the police are responsible for investigating any Child Protection referrals made.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am les ac addysg Plant sy'n Derbyn Gofal. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod strwythurau strategol a pholisiau addas mewn lle i sicrhau addysgu effeithiol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Children Looked After

The Head teacher is responsible for the welfare and education of Looked After Children. It is the Head teacher's responsibility to ensure that there are strategic structures and policies in place to promote the effective education of looked after children.

Mynediad i'r adeilad

Disgwylir i ymwelwyr â'r safle, gan gynnwys rhieni a chontractwyr, gyd-weithredu â chanllawiau diogelwch yr ysgol. Yn hyn o beth dylai pob ymwelydd:

- ddefnyddio prif fynedfa'r ysgol yn unig
- canu'r gloch ger drws y brif fynedfa a chyflwyno ei hun ar system intercom yr ysgol
- mewn gofnodi ar y teclyn digidol ger y prif fynedfa
- mynd i swyddfa'r ysgol a chyfarwyddo ei hun â threfniadau iechyd a diogelwch yr ysgol sy'n cynnwys trefniadau gadael mewn achos o dân, cyn llofnodi'r llyfr ymwelwyr priodol
- gwisgo bathodyn ymwelydd priodol.

Ni chaniateir mynediad i ardaloedd dysgu heb ganiatâd swyddogol/gwyliadwriaeth briodol.

Access to the building

Visitors to the site, including parents and contractors, are expected to cooperate with the school's security guidelines. In this regard, all visitors should:

- *use the school's main entrance only*
- *ring the buzzer on the door of the main entrance and introduce themselves on the school's intercom system*

- *log in using the digital device located next to the main entrance.*
- *report to the school office to familiarise themselves with health and safety procedures including what to do in the event of a fire, before signing the appropriate visitors' book*
- *wear an appropriate visitor badge.*

Access is not permitted to learning areas without official consent/supervision.

Asesiadau Risg

Caiff asesiadau risg eu cwblhau yn rheolaidd i sicrhau bod yr adeilad, y safle a mannau yr ymwelir â hwynt, yn ddiogel i ddisgyblion, staff, ymwelwyr a chontractwyr.

Risk assessments

Risk assessments are regularly undertaken to ensure the building, the site and off-site visits are safe for pupils, staff, visitors and contractors.

Goruchwyliaeth yn ystod amseroedd egwyl a chinio

Caiff disgyblion eu goruchwyllo yn briodol gan oedolion cymwys a thrwyddedig yn ystod amseroedd chwarae ac yn ystod yr awr ginio.

Breaktime and lunchtime supervision

Pupils are adequately supervised by suitably qualified and licensed adults during playtime and the lunch hour.

Casglu Disgyblion

Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol o enwau'r oedolion sydd â hawl i gasglu eu plant o'r ysgol drwy gwblhau ffurflen briodol. Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol yn syth os oes newidiadau i drefniadaeth casglu eu plant. Nid ydym yn rhyddhau plentyn i ofal oedolyn arall os nad ydym wedi ein hysbysu o flaen llaw bod newid i'r trefniadau hynny.

Collecting Pupils

Parents are asked to complete a form informing the school of the names of adults authorised to collect their children. Parents are expected to notify the school if there are any changes to the arrangements for collecting their children. We do not release a child into another adult's care if we have not been notified beforehand of a change to the usual arrangement.

Dril Tân

Cynhelir dril tân ac ymarfer gwacáu mewn achos o dân o leiaf unwaith y tymor yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Tân.

Fire Drill

A fire drill and evacuation practice in the event of a fire are held at least once a term in accordance with the guidelines set out by the Fire Service.

Salwch/Damweiniau

Trinnir mân ddamweiniau yn yr ysgol. Os yw eich plentyn yn dost neu'n dioddef damwain tra ar safle'r ysgol byddwn yn cysylltu â chi yn ddiymdroi. **I'r perwyl hwn mae'n bwysig bod y manylion cyswllt sydd gan yr ysgol ar gyfer pob plentyn yn gyfredol.**

Illness/Accidents

*Minor accidents are dealt with at the school. If your child is ill or has suffered an accident while on the school site, we will contact you without delay. **It is important therefore that the contact details held by the school for each pupil are up to date.***

Gweinyddu Moddion

Anogir rhieni/gwarcheidwaid i weinyddu meddyginiaeth y tu allan i oriau ysgol os yn bosibl. Mae croeso i rieni ddod i'r ysgol i roi moddion i'w plant. Os oes rhaid gweinyddu meddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol, gofynnir i rieni gwblhau ffurflen benodol sydd ar gael o swyddfa'r ysgol. Ni fydd unrhyw feddyginiaeth yn cael ei gweinyddu heb gwblhau'r ffurflen hon. Dylid sicrhau bod pob meddyginiaeth a anfonir i'r ysgol yn union fel y gweinyddwyd gan y fferyllydd, h.y. yn y botel / blwch gwreiddiol gyda'r label gwreiddiol. Gweinyddir meddyginiaeth yn wirfoddol gan staff yr ysgol. Wrth gwrs, os oes gan ddisgybl gyflwr meddygol tymor hir, bydd yr ysgol, mewn partneriaeth â'r rhieni a gyda chyngor meddygol, yn llunio Cynllun Gofal Iechyd er mwyn galluogi'r disgybl i gymryd rhan mor llawn â phosibl ym mywyd yr ysgol.

Administering medication

We encourage parents / guardians to administer medication outside school hours if possible. Parents are welcome to come to school to administer medication for their children. If the administering of medicines is absolutely necessary during the school day parents are asked to complete a specific form, available from the school office. No medication will be administered without completing this form. Parents must ensure that all medication sent to school should be just as dispensed by the pharmacist – i.e. in the original bottle / box with original label. Medication is administered voluntarily by school staff. Of course if a pupil has a long-term or chronic medical condition that requires regular daily medication, the school, in partnership with the parents and with medical advice, will produce a Health Care Plan to enable the child to participate as fully as possible in school life.

Archwiliadau meddygol

O bryd i'w gilydd bydd swyddogion meddygol o'r Awdurdod Iechyd yn cynnal archwiliadau clyw a golwg yn ôl yr angen. Hysbysir rhieni ymlaen llaw am yr ymweliadau hyn a bydd swyddogion yr Awdurdod Iechyd yn cysylltu â chi yn ôl yr angen. Mae gennych yr hawl i neilltuo eich plentyn o'r archwiliadau hyn os ydych yn dymuno.


Medical examinations

From time to time medical officers for the Health Authority will perform hearing and vision examinations as required. Parents will be notified in advance of these visits and the Health Authority's officers will contact you as necessary. You have the right to withdraw your child from these examinations.

Disgyblaeth, ymddygiad a lles disgyblion

Gosodir pwyslais mawr ar sicrhau safonau o ymddygiad da ac ystyriaeth a pharch at eraill. Cyfrifoldeb pob athrawes/athro yw gofal bugeiliol y disgyblion yn eu gofal. Yn yr ysgol disgwylir i ymddygiad disgyblion fod yn gydnaws â disgwyliadau cymuned yr ysgol. Cred yr ysgol fod gan blant yr hawl i drefn a disgyblaeth i'w galluogi i weithio'n dawel ac yn ddiogel. Y pennaeth gyda chymorth y staff sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth a lles disgyblion yr ysgol ac am sicrhau ymateb cadarnhaol i reolau'r ysgol. Mae'r pwyslais ar ddatblygu hunan ddisgyblaeth a pharch at bawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol fel bo trefn a gofal, yn rhan annatod o ethos yr ysgol hon. Defnyddir arferion 'Arfer Adferol' i hybu ymddygiad da ac i annog disgyblion sydd wedi camymddwyn i fyfrio dros eu gweithredoedd.

Yn ein hysgol mae yna bwyslais clir ar ganmol a gwobrwyo. Gwobrwyir esiamplau o ymddygiad da a rhinweddau canmoladwy a chadarnhaol gan system sticeri clod a Dojo a gwobr ychwanegol 'Arwain y ffordd' i ymddygiad sydd yn mynd tu hwnt i'r disgwyliad ac fe ddathlir hyn yn y gwasanaeth a rhoddir ndyn i rieni. Gwobrwyir disgyblion bob dosbarth hefyd gyda thystysgrif Seren yr Wythnos a Thystysgrif Glod am fod yn esiampl dda i eraill. Gwobrwyir dosbarthiadau yn yr un modd am gynnal cyfradd presenoldeb da. Cyflwynir y tystysgrifau hyn fel rhan o wasanaeth gwobrwyo wythnosol ysgol gyfan. Rydym yn annog ac yn dilyn ffordd Bryn y Môr.



Pupil discipline, behaviour and welfare

Much emphasis is placed on ensuring good standards of behaviour, consideration for others and respect for property. Every teacher is responsible for the pastoral care of the pupils in his/her charge. Pupil behaviour at the school is expected to conform to expectations of the

school community, reflecting its standards and values. The school believes that children have the right to order and discipline for them to be able to work quietly and safely. The Head teacher, with the support of the staff, is responsible for the discipline and welfare of pupils at the school and for ensuring a positive response to the rules of the school. The emphasis on developing self-discipline and respect for everyone who is part of the school community in order to achieve an ordered and caring environment is an integral part of the school's ethos. At our school there is a clear emphasis on praise and reward. Restorative Practice strategies are used to promote good behaviour and to help solve conflicts by means of reflecting on actions and their effect on others.



Examples of good behaviour and commendable and positive attributes are rewarded by the praise sticker system and Class dojo and for exceptionally good behaviour an extra reward of 'leading the way' is celebrated in assembly and a note to parents will be given. Pupils of all classes are rewarded also with the Star of the Week and a Praise Certificate for being a good example to others. An award is also presented on a weekly basis to classes who maintain good attendance levels. These certificates are presented as part of the whole-school weekly reward assembly. We encourage all to follow the Bryn y Mor way.

Honiadau o fwlio

Mae hawl gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw fath o fwlian yn hollol annerbyniol. Yr ydym yn ystyried achosion neu honiadau o fwlio yn ddifrifol. Byddwn yn gwneud pob peth posib i atal bwlio rhag digwydd ac yn gweithredu yn unionsyth os cwyd unrhyw honiadau o'r fath. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio. Dylid cysylltu â'r ysgol ar unwaith os yw rhieni yn pryderu am achosion o fwlian.

Allegations of bullying

Every member of the school has the right to be respected by everyone and to experience a happy school life. Any kind of bullying is totally unacceptable. We take cases or allegations of bullying seriously. We will do everything possible to prevent bullying from occurring and will act immediately if such allegations are made. The school has an anti-bullying policy. Parents should contact the school immediately if they have any concerns relating to bullying.

Clwb Brecwast

Mae'r Clwb Brecwast ar agor yn foreol o 7.50yb tan 8.50yb ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Codir tal o £1.50 i'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r clwb rhwng 7.50yb a 8.15yb. Yn ystod y

cyfnod hwn gall y plant fynd i'r neuadd i fwynhau grawnfwyd, tost a sudd. Sicrheir goruchwyliaeth o'r disgyblion yn y neuadd ac ar yr iard yn ystod y cyfnod hwn gan barhau hyd at amser cofrestru am 8.50yb.

Breakfast Club

The breakfast club is open to all school pupils each morning from 7.50am to 8.50am. There is a £1.50 charge for each pupil attending the breakfast club between 7.50am and 8.15am. During this period children can use the school hall to enjoy cereal, toast and juice. Supervision of pupils in the hall and the yard is ensured during this time and continues until registration time at 8.50 a.m.

Cinio Ysgol

Darperir cinio twym yn yr ysgol i'r disgyblion hynny sy'n dymuno ei gael. Coginir y bwyd yng nghegin yr ysgol. Mae'r fwydlen ar wefan Cyngor a Sir Abertawe. Mae copïau ar gael o swyddfa'r ysgol hefyd. Dylid hysbysu'r ysgol os oes anghenion dietegol penodol gyda'ch plentyn. Darperir prydau ysgol am ddim i pob plentyn o'r Derbyn i Flwyddyn 6. **Gall rhieni a gwarcheidwad sy'n derbyn Cymorth Incwm neu fudd-daliadau eraill dal dderbyn cymroth ariannol.** Gallwch gael ffurflen berthnasol o swyddfa'r ysgol neu drwy gysylltu â'r All i wneud ceisiadau . Os nad yw'ch plentyn yn dymuno cael cinio ysgol gallwch ddarparu pecyn bwyd ar gyfer eich plentyn. Ni chaniateir poteli gwydr. Goruchwylir disgyblion yn ystod yr awr ginio gan gynorthwyyr. Mae cyfleusterau bwyta ar gael ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ysgol yn aelod o'r 'Rhwydwaith Ysgolion Iach' ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach.

School Dinner

*The school provides a cooked dinner for those pupils who would like to have one. Meals are prepared on site in the school's kitchen. The menu is on the City and County of Swansea website. Copies are also available from the school office. You should inform the school if your child has specific dietary needs. Free school meals are provided for all pupils from Reception to Year 6. **There is still financial support for families who are eligible.** You can obtain relevant forms from the school office or by contacting the LA to apply for grants to help support your children. If your child does not wish to have a school dinner, you can provide a packed lunch for him/her. Glass bottles are not permitted. All children are supervised during the lunch hour by supervisors. There are eating facilities available for all school pupils. The school is a member of the 'Healthy Schools Network' and places a strong emphasis on eating healthily.*

Clwb Gofal

Mae'r Clwb Gofal ar agor yn ddyddiol o 3.20yh tan 5.50yh ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Cofrestrir y Clwb gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Codir tal o £10 y dydd, gyda gostyngiad o £7 i frodyr a chwiorydd. Darperir ystod o weithgareddau yn y clwb gan gynnwys celf a chrefft, coginio, chwaraeon a thechnoleg gwybodaeth. Sicrheir

goruchwyliaeth o'r disgyblion yn y neuadd a thu allan yn ystod y cyfnod hwn gan gynorthwyyr y clwb hyd at 5.50yh.

After School Club

The Clwb Gofal is open daily for all school pupils, from 3.20pm until 5.50pm. The Clwb is registered with the Care and Social Services Inspectorate Wales. The cost is £10 per day with a discount of £7 for brothers and sisters. A number of activities are provided by the club, including arts and crafts, cooking, sports and information technology. Supervision of pupils is maintained in the hall and in the yard during this period by club supervisors until 5.50 p.m.

Ysgol Iach

Mae'r ysgol yn hyrwyddo arferion iach. Dylai'r disgyblion ddod â darn o ffrwythau a dŵr i mewn i'w yfed yn ystod amser chwarae. Nid ydym yn caniatáu losin, siocled na bisgedi fel byrbrydau na diodydd melys.

Anogir disgyblion i yfed dŵr er mwyn hydradu eu cyrff yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae golchi dwylo yn rhan reolaidd o'r diwrnod ysgol i geisio atal germau a salwch rhag lledaenu.

Mae Llesiant yn werth sylfaenol i ethos yr ysgol gyfan.

Healthy School

The school promotes healthy habits. Pupils should bring in a piece of fruit and water to drink during playtime. We do not allow sweets, chocolate or biscuits as snacks or sweet drinks. Pupils are encouraged to drink water in order to hydrate their bodies during the school day.

Handwashing is a regular part of the school day in an attempt to stop the spread of germs and illnesses.

Wellbeing is an underpinning value of the entire school ethos.

Cynaliadwyedd a Dinasyddiaeth fyd-eang

Yr ydym yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu disgyblion am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang a phwysigrwydd cymryd camau i wneud y byd yn lle gwell.

Sustainability and Global Citizenship

We take advantage of opportunities to teach pupils about sustainability and global citizenship and the importance of taking steps to make the world a better place.

Gweithgareddau allgyrsiol

Ystyriwn bwysigrwydd cynnal gweithgareddau allgyrsiol fel modd o gyfoethogi profiadau disgyblion. I'r perwyl hwn darperir ymweliadau â sioeau/theatrau, ymweliadau maes addysgol, cyngherddau cyhoeddus ac eisteddfodau, cystadlaethau a hyfforddiant chwaraeon ac amrywiaeth eang o glybiau ar ôl ysgol. Mae Canolfan yr Urdd a Menter Iaith Abertawe yn darparu amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol ar safle'r ysgol ac yn yr ardal leol.

Extra-curricular Activities

We consider the provision of extra-curricular activities as an important way of enriching pupils' experiences. To this end we arrange visits to shows/theatres, educational field trips and visits, participation in public concerts and eisteddfodau, sporting competitions and training as well as a variety of after-school clubs. The Urdd and Menter Iaith Abertawe, Welsh language initiatives also enrich our extra-curricular provision by providing activities on the school site and within the community.

Polisi Codi Tâl

O bryd i'w gilydd gofynnir i rieni/warcheidwaid gyfrannu'n wirfoddol, am y canlynol:

- Ymweliadau addysgol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.
- Ymweliadau gan gwmnïau theatr a siaradwyr/ymwelwyr eraill.

Nid oes rheidrwydd ar rieni i dalu ac ni fyddwn yn atal unrhyw blentyn rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau os nad yw rhiant yn methu talu. Yn anffodus heb gefnogaeth ariannol gan rieni, efallai ni fydd yn bosib cynnal rhai o'r gweithgareddau hyn. Mae copi o bolisi Codi Tâl yr ysgol ar gael o swyddfa'r ysgol.

Charging Policy

From time to time, parents/guardians will be asked to contribute voluntarily for the following:

- *Educational visits which enrich the pupils' learning experiences.*
- *Visits from theatre companies and other speakers/visitors.*

Parents are not obliged to pay and we would not prevent any child from taking part in activities if a parent was unable to pay. A copy of the school's Charging Policy is available from the school office.

Casglu Arian

Lle'n bosib yr ydym yn defnyddio system dalu ar-lein '[iPay](#)' i dalu am wibdeithiau ac ati. Mewn amgylchiadau lle mae angen dod ag arian rhydd i'r ysgol gofynnir i rieni roi unrhyw arian mewn amlenni wedi'u labelu ag enw eich plentyn ynghyd ag enw'r dosbarth. Er mwyn hybu arferion ail-gylchu gellir defnyddio hen amlenni i gyflwyno arian.

Collecting Money

Wherever possible payments for trips etc are made via the online payment system '[iPay](#)'. Parents are asked to put any loose money in an envelope labelled with the name of their child and his/her class. In order to promote recycling we encourage reusing old envelopes.

Absenoldebau, Prydlondeb a Gwyliau

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon. Mae unrhyw absenoldeb o'r ysgol yn effeithio'n negyddol ar gyflawniad academaidd disgybl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Cydnabyddir bod cysylltiad pendant rhwng disgyblion sy'n methu â chyflawni eu potensial ac yn cwmpo tu ôl yn yr ysgol â chyfraddau presenoldeb gwael. Unwaith mae disgyblion yn cwmpo tu ôl yn eu gwaith, gall fod yn anodd iawn dal i fyny ac weithiau mae'n amhosibl, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar pan fydd y plant yn dysgu darllen, ysgrifennu, deall rheolau sylfaenol mathemateg a datblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar rieni i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac ar amser ac mae'n rhaid i ni fel ysgol wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yr unig resymau derbyniol dros absenoldeb yw salwch, profedigaeth, ymweliadau addysgol a gymeradwyir, apwyntiadau meddygol a rhesymau eraill a ystyrir yn briodol gan yr ysgol. Yr ysgol yw'r unig gorff a all awdurdodi absenoldeb, nid y rhiant.

Os oes apwyntiad meddygol gan eich plentyn, gan gynnwys apwyntiad â'r deintydd, optegydd ac ati, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol o flaen llaw er mwyn medru cofrestru absenoldeb eich plentyn gyda chaniatâd. Os yw eich plentyn yn dost a fyddech cystal â chysylltu â'r ysgol ar y bore cyntaf, naill ai drwy ffonio neu drwy gyfrwng 'Parent Mail' er mwyn ein hysbysu o'r salwch. Os na fyddwn yn clywed oddi wrthyh byddwn yn cysylltu â chi naill ai drwy neges destun neu drwy ffonio ar y bore cyntaf o absenoldeb. Os nad yw'r ysgol yn derbyn eglurhad am absenoldeb eich plentyn bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb heb ganiatâd. Bydd yr ysgol yn gofyn am dystiolaeth feddygol mewn rhai amgylchiadau. **Os na dderbyniwn unrhyw esboniad am absenoldeb eich plentyn byddwn yn hysbysu'r Swyddog Lles Addysg.** Mae'r Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod Lleol yn monitro presenoldeb disgyblion yn rheolaidd ac yn ymchwilio i achosion lle mae absenoldebau cyson a lle nad oes eglurhad digonol wedi ei dderbyn am absenoldeb.

Mae prydlondeb disgyblion yn bwysig hefyd ac mae cyrraedd yn hwyr yn aml yn effeithio'n negyddol ar addysg plentyn. Mae prydlondeb disgyblion hefyd yn cael ei fonitro gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Os yw plentyn yn absennol yn cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd, heb reswm dilys byddwn yn hysbysu'r Swyddog Lles Addysg. Gofynnir i chi alw yn y swyddfa i gofrestru eich plentyn ac i roi rheswm os ydych yn cyrraedd yn hwyr.

Mewn achos o dywydd gwael e.e. eira, a'r ysgol ar agor, mae'n bwysig eich bod yn hysbysu'r ysgol os yw amgylchiadau yn peri nad ydych yn gallu cyrraedd yr ysgol.

Os ydych yn dymuno hawlio cyfnod o absenoldeb a fydddech cystal â chwblhau'r ffurflen berthnasol a'i ddychwelyd i'r ysgol er mwyn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth. **Nid ydym yn annog rhieni i fynd a'u plant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Cofnodir absenoldeb oherwydd gwyliau fel absenoldeb heb ganiatâd os na drefnwyd i'r gwrthwyneb gyda'r Pennaeth.**

Mae gwella cyfraddau presenoldeb yn bwysig iawn am ei fod yn un o'r ffactorau a ddefnyddir wrth gymharu â mesur perfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill.

Absences, Punctuality and Holidays

Regular attendance at school and arriving on time is of the utmost importance. Any absence from school is known to affect pupil's academic achievement, which will in turn have a negative effect on life-chances. It is widely recognised that pupils who fail to achieve their potential and who fall behind in school have poor attendance rates. Once pupils have fallen behind, catching up can be very difficult and sometimes impossible, particularly in the early years of school when the children are learning to read, write, understand the basic rules of mathematics and develop their personal and social skills.

Parents are legally obliged to ensure that their children attend school regularly and on time and schools are obliged to do all they can to ensure that happens.

If your child has a medical appointment, such as an appointment with the dentist or optician, you are required to contact the school beforehand so that your child's absence can be registered with authorisation.

*If your child is unwell, you should contact the school on the first morning, either by telephone or via 'Parent Mail' in order to inform us of the illness. If we do not hear from you we will contact you via a text message or by phone on the first morning of absence. **If the school does not receive an explanation for your child's absence, the absence will be recorded as an unauthorised absence.** If your child is absent without explanation we will contact the Education Welfare Officer. The LA's Education Welfare Officer monitors pupil attendance regularly and investigates cases of regular absenteeism where there is inadequate explanation provided for such absences. The school will ask for medical evidence in some instances. Pupil punctuality is also important and arriving late often impacts negatively on a child's education. Punctuality is also monitored by the school and the LA. If a child is regularly late the school will notify the Education Welfare Officer.*

In the event of inclement weather, e.g. snow, but the school is open, it's important that you inform us if conditions prevent you from reaching the school.

*If you need to request leave of absence, could you please complete the relevant form, which is available from the school office and return it to the school for approval by the Head Teacher. **Taking school holidays during term time is discouraged. All absences due to holidays will be recorded as unauthorised unless discussed with headteacher.***

Improving the current rate of attendance is very important as this is one of the factors used to compare and measure the school's performance against that of other schools.

Trefniadau ar gyfer cau'r ysgol ar fyr rybudd

Mewn achosion penodol, megis tywydd gwael, gall yr ysgol orfod cau heb lawer o rybudd. Os digwydd hyn yn y bore byddwn yn:

- eich hysbysu drwy neges ar 'Parentmail'
- arddangos neges ar wefan yr Ysgol www.yggbrynymor.co.uk ac ar wefan yr Awdurdod Lleol
- cysylltu'n gynnar yn y bore gyda gorsafoedd radio a Radio Cymru
- rhoi neges ar gyfrif INSTA' yr ysgol.

Os yw'n digwydd bod rhaid i ni gau'r ysgol yn ystod y dydd byddwn yn:

- ffonio'r rhifau cyswllt arferol neu argyfwng yr ydych wedi eu nodi
- anfon neges destun yn eich hysbysu

Gofynnwn am eich help chi fel rhieni i:

- sicrhau bod eich rhifau cyswllt ffôn presennol ynghyd â rhifau cysylltu mewn argyfwng yn gyfredol
- bod yn barod i helpu drwy ffonio/cysylltu ag eraill
- bod yn ymwybodol y gall sefyllfaoedd argyfyngus godi.

Arrangements for closing the school at short notice

Under certain circumstances, such as inclement weather, the school may have to close without being able to give much notice. If this happens in the morning, we will:

- *send a message via Parentmail*
- *display a message on the school's website www.yggbrynymor.co.uk and the LA's website*
- *contact the radio stations and 'Radio Cymru' early in the morning*
- *post a message on the school INSTA account.*

If it so happens that we have to close the school during the day, we will:

- *call the usual or emergency contact numbers you have provided*
- *send a text message to notify you.*

We will ask for your help as parents to:

- *ensure that your current phone contact numbers, as well as your emergency contact numbers, are up to date*
- *be willing to help by phoning/contacting others*
- *be aware that emergency situations could arise.*

Cyfle Cyfartal

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr credwn fod gan bawb yr hawl i ymdriniaeth gyfartal a theg. Rydym yn parchu ac yn dathlu amrywiaeth a thrwy fod yn gynhwysol, sicrhawn fod gan bob aelod o gymuned yr ysgol gyfle cyfartal i fanteisio ar y meysydd amrywiol sydd o fewn darpariaeth yr ysgol.

Mae hyn yn golygu bod gan randdeiliaid yr ysgol gyfrifoldebau a rolau arbennig ar y cyd, ac fel unigolion. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gweithredu'r polisi hwn yn ein dyletswyddau beunyddiol gan gefnogi cyfreithiau cenedlaethol, mentrau lleol a pholisïau ysgol eraill. Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oed, rhyw, tueddiadau rhywiol, hil, lliw croen, anabledd, crefydd, cenedl, tras ethnig neu yn erbyn grwpiau lleiafrifol eraill. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, sy'n cynnwys Cynllun Hygyrchedd yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer sicrhau bod pawb yn derbyn ymdriniaeth deg a chyfartal.

Equal Opportunities

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we believe that everyone has the right to equal and fair treatment. We respect and celebrate diversity and by being inclusive we ensure that all members of the school community have equal opportunities to access the various areas of school provision.

This means that the school's stakeholders have special roles and responsibilities, both jointly and as individuals. Our aim is to ensure we implement this policy when performing our day-to-day duties, thus supporting national laws, local initiatives and other school policies. We do not discriminate against anyone on the grounds of age, gender, sexual orientation, race, skin colour, disability, religion or ethnicity or against minority groups. Our Strategic Equality Plan, which includes an Accessibility Plan ensures that we plan equal and fair opportunities for all.

Mynediad i Bobl/Disgyblion Anabl

Yr ydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod disgyblion a rhieni sydd ag anableddau yn cael mynediad i safle'r ysgol a'i chyfleusterau.

Access for Disabled Adults/Pupils

We make every effort to ensure the school site and it's facilities are accessible for pupils and parents with a disability.

Cyfleusterau Toiled

Mae cyfleusterau toiled yr ysgol yn ateb anghenion disgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion hyn. Ceir cyfleusterau ar wahân i fechgyn a merched. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen a disgyblion hyn yn rhannu'r cyfleusterau hynny.

Mae toiled ar gael ar gyfer staff ac ymwelwyr gan gynnwys un toiled sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan dair glanhawraig. Mae'r ysgol yn talu am wasanaeth glanhau yr Awdurdod Lleol.

Toilet Facilities

Toilet facilities in place at the school meet the needs of pupils in the Foundation Phase and older pupils of the school. There are separate facilities for boys and girls. Foundation Phase pupils and older pupils share these facilities.

There are toilets for staff/visitors including one that is accessible to wheelchair users.

The toilets are cleaned daily by three cleaners. The school pays for the cleaning service provided by the Local Authority.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y mae ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn ysgol gynhwysol. Ystyriwn ei fod yn holl bwysig bod plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y cyfle i ddilyn cwricwlwm eang a chytbwys, fel eu cyfoedion. Mae'r ysgol wedi symud i'r system newydd sydd wedi eu rhoi yn ei lle o dan ddeddf ADY newydd.

Prif Negeseuon y ddeddf newydd yw:

- Bydd y term **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** yn cael ei ddefnyddio yn lle'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anableddau Dysgu(AAD). Dim ond pan fydd angen rhoi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) i gefnogi ei addysg y bydd plentyn yn cael ei nodi fel ADY.
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig bellach yn cael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Bydd y cod newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae hynny'n golygu y bydd y blynyddoedd cynnar e.e meithrin, colegau addysg bellach a cholegau annibynnol arbenigol pellach nawr yn cael eu cynnwys hefyd (ond nid addysg uwch na phrentisiaethau.)
- Bydd pwyslais ar ddyheadau uchel a chanlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.
- Bydd system raddoledig o weithredu blynyddoedd cynnar, gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy a datganiadau yn diflannu, a bydd pob plentyn sydd ag ADY yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn cymryd lle pob cynllun unigol arall.
- Bydd y CDU ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

- Bydd system raddoledig gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau yn diflannu, a bydd pob plentyn sydd ag ADY yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn cymryd lle Cynlluniau Addysg Unigol (CAU), Cynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU) neu Gynlluniau Chwarae Unigol (CChU.)
- Bydd y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cynnal gan yr ysgol, ond pan ystyrir ei bod yn afresymol i'r ysgol wneud hynny, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu cynnal nhw.
- Bydd mwy o gyfle i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalmwyr gyfrannu at y broses o greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Y gobaith yw y dylai cydweithredu agosach a chydweithio mewn partneriaeth helpu i osgoi anghytundebau.
- Bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg os oes angen.
- Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â Chynllun Datblygu Unigol hawl cyfartal i apelio i'r Tribiwnlys.

Os hoffech ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod.

<https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>

Yn yr ysgol ydym yn ceisio adnabod disgyblion sydd ag ADY yn gynnar drwy:

- gynnal arsylwadau ac asesiadau ar lawr y dosbarth
- cymharu cyrhaeddiad â chynnydd plant o'r un oed a'i gilydd
- defnyddio canfyddiadau profion perthnasol i'r oed
- defnyddio canlyniadau asesu statudol.

Er mwyn cwrdd ag anghenion plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'n rhaid addasu'r Rhaglenni Astudio yn bwrpasol ar eu cyfer. Mae pob plentyn yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn dilyn gofynion y Cwricwlwm ar ei lefel ei hun, a byddant yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm trwy weithgareddau a dulliau dysgu amrywiol. Ein nod yw sicrhau fod disgyblion sydd ag ADY yn cael eu hintegreiddio a'u cefnogi yn llwyr er mwyn gallu cyflawni amcanion a nodau addysgol unigol. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cydweithio'n agos gyda rhieni yn ogystal â chyd-weithio agos gydag asiantaethau allanol megis seicolegydd addysg, arbenigwyr meddygol ac ati er mwyn cefnogi disgyblion a sicrhau eu bod yn ymgymraedd at eu llawn botensial.

Mae'n rhan o'r Cod ADY i gysylltu â rhieni unrhyw ddisgybl i gael caniatâd cyn ei osod ar y gofrestr ADY mewn unrhyw gyfnod a/neu cyn iddo gael ei gyfeirio am asesiad arferol neu statudol. Hysbysir rhieni ynglŷn â chynnydd y disgybl a gwahoddir rhieni i bob adolygiad. Gellir gweld copi llawn o'r canllawiau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar wefan yr ysgol neu drwy alw mewn i swyddfa'r ysgol.

Additional Learning Needs

Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr is an inclusive school. We consider it to be of paramount importance that children with Additional Learning Needs have the opportunity to follow a broad and balanced curriculum, just like their peers. The school has completed its journey to move to the new system that has come into force under a new ALN code.

Key Messages:

- The term Additional Learning Needs (ALN) will replace the terms Special Educational Needs (SEN) and Learning Difficulties and Disabilities (LDD). It is when additional learning provision (ALP) is required to support their education that a child or young person will be identified as having ALN.*
- Special Educational Needs Coordinators (SENCOs) in schools will now be called Additional Learning Needs Coordinators (ALNCOs)*
- The new Code for the new system will cover children and young people aged 0-25.*
- This means that early years, further education colleges and further independent specialist colleges will now also be included (but not higher education or apprenticeships.)*
- Emphasis will be on high aspirations and better outcomes for children and young people with Additional Learning Needs (ALN).*
- The current graduated system of Early Years, Early Years Plus and Statements is being replaced. All children and young people thought to have ALN will have an Individual Development Plan (IDP). The IDP will replace all other individual plans. IDPs for children under compulsory school age will be maintained by local authorities.*
- The current phased system of School Action, School Action Plus and Statements will disappear, and all children and young people thought to have ALN will receive an Individual Development Plan (IDP). The IDP will replace Individual Education Plans (IEPs), Individual Behavior Plans (IBPs) or Individual Play Plans (IPPs).*
- Most Individual Development Plans will be maintained by the school, but where it is considered unreasonable for the school to do so, the Local Authority may maintain them.*
- There will be more opportunity for children, young people, parents and carers to contribute to the creation and maintenance of Individual Development Plans through Person Centred Planning.*
- It is hoped that working together more closely should help to avoid disagreements.*
- All reasonable steps will be taken to ensure Welsh language provision if required*
- All children and young people who have an Individual Development Plan will have an equal right to appeal to tribunal.*

If you require additional information, follow the link provided.

<https://gov.wales/additional-learning-needs-special-educational-needs>

We identify pupils with ALN by:

- carrying out classroom observations and assessments;*
- comparing the attainment and progress of children of the same age;*
- testing appropriate for their age;*
- statutory assessment results.*

In order to meet the needs of children with additional learning needs the programmes of study must be adapted accordingly. All pupils at Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr follow the requirements of the curriculum at their own level, and they will access the curriculum through various activities and learning methods. Our aim is to ensure that pupils with ALN are fully integrated

and supported in order to be able to achieve individual educational objectives and goals. We appreciate the importance of working closely with parents, as well as external agencies such as an education psychologist and medical specialists in order to support pupils and ensure that they achieve their full potential.


In accord with the ALN Code school will liaise with parents to secure permission before any pupils is placed on the ALN register at any stage and/or prior to being referred for a routine or statutory assessment. Parents are kept informed of the pupils progress and are invited to each review. A full copy of the Additional Learning Needs guidance can be seen on the school website or by requesting a copy at the school office.

Cwricwlwm i Gymru (CiG)

Ein Cynnig

Ffocws ein cwricwlwm fydd ethos y pedwar diben.

Y pedwar diben yw man cychwyn a dyhead ein cynllun cwricwlwm ysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:




Ein cwricwlwm

- Bydd disgyblion yn datblygu corff o wybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn cynyddu mewn ehangder a dyfnder a lefel dealltwriaeth a soffistigeiddrwydd wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy eu gyrfaysgol.
- Bydd y 6 Maes Dysgu a Phrofiad yn rhyngweithio i sicrhau perthnasedd, dyfnhau dealltwriaeth, datblygu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd a bywyd go iawn a byd gwaith.
- Bydd yn sicrhau bod addysgeg ac asesu yn ganolog i ddyluniad y cwricwlwm.
- Bydd yn darparu cydestunau dilys ar gyfer datblygu'r sgiliau cyfannol, sy'n sail i'r pedwar

diben.

- Bydd yn sicrhau bod rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol yn cael eu haddysgu ar draws y cwricwlwm.
- Bydd yn sicrhau bod safle'r ysgol yn ddiogel a bod ymddygiad cadarnhaol yn cefnogi lles holl aelodau'r ysgol.
- Bydd yn annog dyhead ac ymdeimlad o lwyddiant.
- Bydd yn sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant wrth galon cwricwlwm yr Ysgol.
- Bydd yn darparu cyfleoedd a phrofiadau ar gyfer datblygu disgyblion yn ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol a fyddai'n eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o gymdeithas gan gynnwys ymgorffori Hawliau Plant yn ethos yr ysgol.

Bydd yn rhoi profiadau i ddisgyblion a fydd yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu, ennyn brwdfrydedd a magu hyder yn ein plant a phobl ifanc.



Our Offer

The focus of our curriculum will be the ethos of the four purposes.

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

Our curriculum

- *Pupils will develop a body of knowledge and skills relevant to the 6 Areas of Learning and Experience which will increase in breadth and depth and level*

of understanding and sophistication as pupils' progress through their school career.

- *The 6 Areas of Learning and Experience will interact to ensure relevance, deepen understanding, develop connections and transfer learning to new and real-life contexts and with the world of work.*
- *Will ensure that pedagogy and assessment are centre to curriculum design.*
- *Will provide authentic contexts for developing the integral skills, which underpin the four purposes.*
- *Will ensure numeracy, literacy and digital competence are taught cross-curricular.*
- *Will ensure that the school site is safe and that positive behaviour supports the wellbeing of all members of the school.*
- *Will encourage aspiration and a sense of success.*
- *Will ensure that equality and inclusivity will be at the heart of the School's curriculum.*
- *Will provide opportunities and experiences for developing spiritual, moral, mental and physical pupils that would enable them to be full members of society including incorporating Children's Rights into the ethos of the school.*

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (RVE) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. [Canllawiau CGM](#)

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn RVE o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Religion, Values and Ethics (RVE)

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. [RVE Guidance](#)

There is no parental right to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales. As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae ein cwricwlwm ysgol yn croesawu'r canllawiau yn y [Cod ACRh](#). Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Bydd yn helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch, yw sylfaen ACRh. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae polisi ACRh yr ysgol ar gael o'r swyddfa. Nid oes hawl gan riant i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru.

Relationship and Sexuality Education (RSE)

Our school curriculum embraces the guidance in the [RSE Code](#). Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a whole-school approach.

Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy. The school's RSE Policy is available from the office. There is no parental right to request that a child is withdrawn from RSE in the Curriculum for Wales.

Addysg Gorfforol

Yr ydym yn annog pob disgybl i fyw yn iach a gofalu am eu cyrff. Mae Addysg Gorfforol yn rhan annatod o'r cwricwlwm a neilltuir sesiynau penodol ar gyfer addysgu Addysg Gorfforol yn ystod yr wythnos. Mae addysgu am effaith addysg gorfforol ar y corff a meithrin nodweddion megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad a hunanhyder yn rhan bwysig o'r addysg hon.

Mae darpariaeth Addysg Gorfforol yr ysgol yn eang ac amrywiol ac yn cynnwys addysgu gêmiau, gymnasteg, dawns, nofio ac athletau yn unol â gofynion cwricwlaidd. Yn y Cyfnod Sylfaen mae pob disgybl yn derbyn awr a hanner yr wythnos o wersi Addysg Gorfforol, gyda'r gwersi yn cael eu cynnal ar safle'r ysgol. Ar ben yr ysgol, mae'r disgyblion yn treulio o leiaf awr bob wythnos mewn gwersi Addysg Gorfforol. Dydy safle'r ysgol ddim yn addas i gynnal yr holl weithgareddau corfforol i'r disgyblion hyn, felly cynhelir y gweithgareddau yma yn y neuadd chwaraeon, Neuadd Gymunedol Brynmill, trac athletau a phwll nofio Prifysgol Abertawe.

Yn ychwanegol i hyn, mae trawstoriad o gyfleoedd i ddisgyblion fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol yn wythnosol ar ôl oriau ysgol, gydag amrywiaeth o glybiau allgyrsiol yn cael eu cynnig ar wahanol adegau o'r flwyddyn, e.e. pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi a thenis.

Mae gan yr ysgol nifer o dîmau chwaraeon sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm. Mae'r tîmau hyn yn cynnwys:

- tîmau pêl-droed bechgyn a merched, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a gwyliau pêl droed lleol

- tîmau pêl-rwyd cymysg sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a gwyliau pêl-rwyd lleol
- tîmau rygbi, sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd a gwyliau rygbi lleol
- tîmau nofio sy'n cystadlu yng Ngala'r Urdd
- tîmau athletau sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau Dinas a Sir Abertawe ac ysgolion Cymru.

Physical Education

We encourage all pupils to live healthily and to look after their bodies. Physical Education is an integral part of the Foundation Learning curriculum and sessions are allocated for physical education during the week. Teaching about the effect of physical education on the body and nurturing attributes such as effort, fair play, playing together, perseverance and self-confidence.

The Physical Education provision at the school is varied and includes games, gymnastics, dance, swimming and athletics in line with curricular requirements. In the Foundation Phase each pupil receives an hour and a half of physical education with classes being held on the school grounds. Pupils at the top end of the school spend at least an hour per week in physical education lessons. The School's site is not appropriate for holding physical education activities for these pupils and therefore these activities are carried out in the Brynmill Community Centre as well as Swansea University's sports hall, athletics track and swimming pool. In addition, there is a variety of opportunities for pupils to attend additional weekly after-school training, with a range of different extra-curricular clubs being offered at different times of the year e.g. netball, football, rugby and tennis.

The school has a number of sports teams that provide an opportunity for pupils to compete individually and as part of a team. These teams include:

- *boys' and girls' football teams that compete in Urdd competitions and in local football festivals*
- *mixed netball teams that compete in Urdd competitions and in local netball festivals*
- *rugby teams which compete in Urdd competitions and in local rugby festivals*
- *swimming teams that compete in the Urdd Gala*
- *athletic teams that compete in the City and County of Swansea, Welsh Schools championships.*

Gwaith Cartref

Rhoddir tasgau gwaith cartref gan athrawon dosbarthiadau unigol. Mae'r tasgau yma yn estyniad o waith y dosbarth ac yn aml yn atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn y dosbarth. Yn nosbarthiadau'r Adran y Bae a'r Môr mae'r tasgau a roddir fel arfer yn ymwneud â datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion neu'n dasgau sy'n annog chwilfrydedd a diddordeb disgyblion. Yn Adran y Bae a'r Môr darperir crynodeb Saesneg o natur y tasgau cartref. Ar ddechrau bob tymor bydd yr athro/athrawes ddosbarth yn cyflwyno amlinelliad o waith y tymor ac mae croeso i chi fel rhieni/gwarcheidwad i fynd ar drywydd rhai o'r themâu sydd ymhlyg â'r thema dymhorol yma yn y cartref.

Yn ystod blynnyddoedd ffurfiannol plentyn y cyfraniad pwysicaf gall rhieni wneud i annog datblygiad addysgol eu plant yw i siarad, darllen a thrafod gyda'ch plentyn er mwyn hybu

sgiliau llythrennedd megis llafaredd a chyfathrebu a meithrin chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas.

Yn Adran yr Afon, rhoddir gwaith cartref Mathemateg yn wythnosol. Yn ogystal cynnigir hefyd bwydlen o weithgareddau dewisol, y gellir dewis o'u plith gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth a hunan-ddisgyblaeth disgyblion. Gellir ddefnyddio cyfrifau HWB disgyblion i gyflwyno gwaith cartref i athrawon.

Homework

Homework tasks are set by individual class teachers. These tasks are an extension of classwork and often reinforce what has been learnt in class. In the Adran y Bae a'r Môr classes, the tasks which are usually given involve the development of pupils' literacy and numeracy or stimulate pupils' curiosity and interest. In the Adran y Bae a'r Môr, an English summary of the nature of the tasks is sent home to parents. At the start of each term, the class teacher will present an outline of the term's work and you are welcome as a parent/guardian to go over some of the components of the overall term theme at home.

During a child's formative years, the most important contribution parents can make to encourage the educational development of their children is to speak, read and discuss with their children in order to promote literacy skills such as oracy and communication and to nurture curiosity about the world around them.

In Adran yr Afon Mathematics homework is given weekly. There is also a menu of optional activities, from which pupils choose, with the aim of promoting pupils' independence and self-discipline.

Pupils can use their HWB accounts to present their homework to teachers.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Mae'r ysgol hon yn bwydo Ysgol Gyfun Gŵyr. Ysgol gyfrwng Cymraeg yw'r ysgol uwchradd hon. Bydd disgyblion Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gŵyr ar ddiwedd Blwyddyn 6 er gall rhieni ddewis danfon eu plentyn i ysgol arall os dymunwn wneud hynny. Yn ystod eu cyfnod ym Mlwyddyn 6 bydd rhieni disgyblion yn derbyn gwybodaeth oddi wrth yr ALI yn amlinellu sut i wneud cais am fynediad i ysgol uwchradd. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn trefnu nosweithiau agored ar gyfer rhieni a disgyblion a chânt gyfle i gwrdd â'r pennaeth a staff yr ysgol. Mae trefniadau pontio effeithiol yn digwydd yn ystod Blwyddyn 6 i hwyluso'r trosglwyddiad o'r ysgol hon i'r ysgol uwchradd. Mae cysylltiadau agos a sefydlog rhwng y ddwy ysgol a chaiff disgyblion gyfle i ymweld â'r ysgol yn ystod diwrnodau pontio yn ogystal â chyfle i fwynhau wythnos bontio yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Transition to Secondary School

This school is a feeder school for Ysgol Gyfun Gŵyr. This is a Welsh-medium secondary school. Pupils at Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr will transfer to Ysgol Gyfun Gŵyr at the end of Year 6. However, parents have the right to choose which school their child will attend when they leave. During their time in Year 6, the Local Authority will send out a booklet to all parents

which contains all the relevant information about the application and admission process for secondary schools. Ysgol Gyfun Gŵyr holds an open evening when parents and pupils can meet the head teacher and staff of the school. There are excellent arrangements in place for facilitating the transition from Year 6 to the secondary school.

At the end of Year 6 pupils will transfer to Ysgol Gyfun Gŵyr. A close relationship has exists between the two schools and students have the opportunity to visit the school during transition days as well as the opportunity to enjoy a transition week at the Urdd Camp in Llangrannog.

Cynnal Cysylltiadau â Rhieni

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, rydym yn gweithredu polisi 'drws agored' ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid. Diben y polisi yw annog cyfathrebu agored, adborth a thrafodaeth. Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad rhieni i fywyd a gwaith yr ysgol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg neu les eich plentyn, yna rydym yn credu ei bod yn well o lawer eich bod yn dod i mewn i'r ysgol i'w trafod - **yn y lle cyntaf gyda'r athro dosbarth**, ac yna gyda'r Pennaeth os nad ydych wedi eich bodloni.

Er ein bod yn cytuno bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ffordd wych o gyfathrebu a rhannu syniadau, rydym o'r farn nad dyma'r lle priodol i leisio anfodlonrwydd a chwyno am weithdrefnau'r ysgol. Byddai'n llawer gwell gennym drafod y problemau gyda chi wyneb yn wyneb, trwy e bost neu galwad ffôn.

Trwy ddilyn y canllawiau isod hyderwn y bydd modd datrys unrhyw bryderon yn gyflym. Bydd staff yn gwrandao ar eich pryderon ac yn gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw fater sy'n peri pryder. Disgwylir i staff a rhieni i ymddwyn yn rhesymol ac yn deg ar bob cyfrif. Mae'n bwysig er lles ein plant ein bod yn gweithio gyda'n gilydd.

Er mwyn gweithredu ein polisi yn effeithiol gofynnwn am eich cydweithrediad ymlaen llaw â'r rheolau canlynol:-

- Rhaid i bob ymwelydd gofrestru ei b/phresenoldeb ym mhrif swyddfa'r ysgol.
- Fel arfer, bydd athrawon dosbarth ar gael ar gyfer cyfarfod cyn dechrau'r diwrnod ysgol neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn ystod y cyfnod derbyn a throsglwyddo disgyblion. Gofynnwn yn garedig i chi fynd i brif swyddfa'r ysgol cyn chwilio am aelodau o staff er mwyn trafod unrhyw bryderon sydd gennych.
- Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd yr athro fod ar gael am resymau dilys a dylid trefnu amser cytûn i drafod unrhyw bryder.
- Yn yr un modd os ydych yn teimlo bod angen treulio mwy na 5 munud i drafod, yna dylid ffonio neu alw yn y brif swyddfa (drwy'r brif fynedfa) i wneud apwyntiad i weld aelod o staff ar adeg sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.
Gwerthfawrognw pe baech yn gallu nodi diben y cyfarfod er mwyn i staff fedru ymateb yn briodol.
- Gall staff hefyd fod ar gael i gymryd galwadau ffôn. Os nad ydynt ar gael, gadewch rif cyswllt fel y gall yr aelod o staff eich ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus. Mi fydd e-bost eich athro yn llyfr cyswllt eich plentyn. Gofynnwn eich bod yn dilyn canllawiau etiquette e-bost sydd ar gael o we fan yr Ysgol neu ar gael o'r swyddfa pe dymunwch. Ar

ddechrau'r diwrnod ysgol ac yn ystod oriau gwaith, mae mynediad i'r prif adeilad yn cael ei reoli. Mae'r safle wedi ei gloi ar gyfer diogelwch ein disgyblion.

- Yr ydym yn ysgol sy'n hyrwyddo parch. Ni ddylai rhieni godi eu lleisiau na gweiddi ar staff. Mae ymddygiad ymosodol, heriol neu fygythiol yn annerbyniol. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i unrhyw un sy'n cam-ddefnyddio'r polisi hwn i adael tir yr ysgol.
- Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar y ffordd y mae'r ysgol wedi delio â'r broblem, cyfeiriwch at y Polisi Cwynion gan ddilyn y drefn a amlinellir.

Bellach mae fforwm i rieni gennym yn cydweithio gyda'r Ysgol.

Maintaining Links with Parents

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we operate an 'open door' policy for parents/guardians. The purpose of our 'open door' policy is to encourage open communication, feedback and discussion. We value the contribution and input parents make to the school.

*If you have any worries or concerns about your child's education or welfare, then we believe that it is far better that you come into school and discuss them – **in the first case with the class teacher** and then with the Head teacher if these issues have not been resolved. Following this process allows issues to be resolved and explained.*

Whilst we agree that social network platforms are excellent forums for communicating and exchanging ideas we believe that these are not the appropriate platforms for voicing dissatisfaction and complaints about school procedures. We would prefer to discuss these problems with you in person, via e mail or by phone.

By following processes outlined in this policy staff will listen to your concerns and work with you to resolve any issues that you might have. Staff and parents are expected to be reasonable and be fair to all parties. It is in the best interests of all our children that we work together.

We are able to maintain our 'open door' policy by requesting your co-operation with the following rules. Thank you.

- *All visitors to the school must report to the school office upon arrival.*
- *Class teachers will usually be available before the start of the school day or end of the school day, during handover. We ask kindly that parents report to the office before seeking members of staff to discuss any issues which they may have.*
- *In some cases, the teacher may not be available for genuine reasons and a different meeting time should be arranged.*
- *If you feel that the matter needs more than 5 minutes to discuss, then parents should phone or call at the main office via the main entrance to make an appointment to see the member of staff at a mutually convenient time. It is useful to staff if you are able to state the purpose of the meeting request.*
- *Staff may also be available to take phone calls. If they are not available please leave a contact number so that the member of staff may call you back at a different time. Your teacher's email will be in your child's contact book. We ask that you follow the*

guidelines of email etiquette available from the School web site or available from the office if you wish.

- At the beginning of the school day and during working hours, the main school building is accessible to parents and access controlled. The site is locked for the purpose of safeguarding pupils.*
- We are a school that promotes respect. At no time should parents raise their voices at staff. Aggressive, challenging or threatening behaviour is unacceptable. Anyone who misuses the policy may be asked to leave the school premises.*
- If you remain unhappy with the way the school has dealt with the problem please refer to the Complaints Policy and follow the procedure outlined.*

We now have a Parent forum that work with the school.

Trefniadau ar gyfer gwneud cwyn

Yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr, yr ydym yn disgwyl bod disgyblion, staff a rhieni yn gwrandao ar ac yn parchu ei gilydd. Yr ydym yn awyddus i feithrin cymuned hapus a gofalgar ac rydym ar gael i drafod unrhyw bryderon sydd gennych. Gallwch siarad ag athro/athrawes dosbarth eich plentyn yn y man cyntaf os yw hynny'n briodol ac yn berthnasol i'r broblem neu gysylltwch â'r Pennaeth yn uniongyrchol. Mae'r camau ar gyfer gwneud cwyn wedi'u hamlinellu ym Mholisi Cwynion yr ysgol.

Os oes gennych gŵyn o dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg (sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, Addysg Grefyddol a Chyd-addoli) gallwch gael copi yr ALI o'r Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Cwyn o'r ysgol neu'r Adran Addysg.

Pa beth bynnag yw'r gŵyn dylech yn gyntaf geisio datrys y mater drwy wneud apwyntiad i drafod y mater gyda'r Pennaeth.

Complaints Procedure

At Ysgol Gymraeg Bryn-y-Môr we expect pupils, staff and parents to listen to each other and show respect for each other. We are keen to nurture a happy and caring community and we are available to discuss any concerns you may have. You can speak with your child's class teacher in the first instance, if that is appropriate and relevant to the problem or you can contact the Head teacher directly. The procedures for making a complaint are outlined in the schools Complaint Policy.

If you have a complaint under Section 23 of the Education Reform Act (relating to the Curriculum, Religious Education or Religious Worship) the LA has prepared a a Formal Complaints Procedure which is available from the School or Education Department.

In the event of any complaint you should first try to resolve the matter by making an appointment to discuss the matter with the Headteacher.

Adrodd i Rieni

Byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd eich plentyn yn ystod ail hanner Tymor yr Haf. Bydd yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o gynnydd a chyraeddiadau eich plentyn ymhob agwedd o'i ddatblygiad addysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd yr adroddiad yn eich galluogi chi fel rhieni/gwarcheidwad i dracio cynnydd eich plentyn a derbyn targedau cyraeddadwy a realistig fydd yn galluogi eich plentyn i gynnal a gwella ar ei berfformiad.

Cynhelir Noson Rieni yn yr ysgol o fewn pythefnos o dderbyn yr adroddiad er mwyn i chi fedru trafod cynnwys yr adroddiad gydag athro/athrawes ddosbarth eich plentyn.

Cynhelir nosweithiau cwricwlaidd ar ddechrau Tymor yr Hydref er mwyn i rieni gwrdd ag athrawon eu plant ac er mwyn i athrawon amlinellu gweithdrefnau'r dosbarthiadau ynghyd â'u disgwyliadau yn ystod y flwyddyn.

Cynhelir Cyfarfodydd Rhieni yn Nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn er mwyn trafod lles a chynnydd cyffredinol eich plentyn.

Wrth gwrs os ydych yn dymuno gweld athro/athrawes ddosbarth ar ryw adeg arall mae croeso i chi wneud hynny drwy drefnu apwyntiad ffurfiol drwy swyddfa'r ysgol.

Reporting to Parents

You will receive a written report on the progress of your child during the second half of the summer term. This report will provide a summary of your child's progress and achievements in all aspects of their educational development during the academic year. The report will enable you as the parent/guardian to track your child's progress and it will set attainable and realistic targets to enable your child to maintain and improve their performance.

A parents' evening is held at the school within a fortnight of receipt of the report so that you can discuss the contents of the report with your child's class teacher.

Curricular evenings are held at the beginning of the Autumn Term for parents to meet their children's teachers and for teachers to outline classroom procedures and their expectations for the year.

Parents' meetings are held in the Autumn and Spring Term to discuss your child's general welfare and progress.

Of course, if you wish to see a class teacher at some other time, you are welcome to do that by arranging a formal appointment through the school office.

Asesu

Asesir disgyblion ar fynediad i'r Dosbarth Derbyn yn ystod chwe wythnos gyntaf o'u haddysg. Cynhelir asesiadau crynodol a ffurfiannol yn ystod eu cyfnod yn y Adran y Bae a'r Môr gydag asesiadau statudol a phrofion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu cynnal i Flwyddyn 2 i 6

Assessment

Reception Class pupils are assessed within six weeks of starting school. Summative and formative assessments are made during their time in the Adran y Bae a'r Môr while statutory assessments and Literacy and Numeracy Framework tests are carried out in Year 2 to 6.

Blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol/School Improvement Priorities

[Ar gael ar we fan yr ysgol/ The can be found on the school website:](#)